

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	10 Mehefin 2013
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol: Gwasanaethau Oedolion a Phlant/Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Busnes
Awdur yr Adroddiad:	Simon Pyke - Pennaeth Cyswllt Staff, Prifysgol Betsi Cadwaladr
Teitl:	Cyflwyno Mesur Iechyd Meddwl Cymru yn Sir Ddinbych

1. Beth mae'r adroddiad yn sôn amdano?

Mae'r adroddiad hwn yn manylu sut mae Mesur Iechyd Meddwl Cymru wedi ei gyflwyno i Sir Ddinbych fel rhan o gyflwyno'r mesur yn gyffredinol i Ogledd Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae Mesur Iechyd Meddwl Cymru'n gosod cyfrifoldebau cyfreithiol ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol mewn perthynas â chyflwyno pedair elfen o'r Mesur Iechyd Meddwl ar draws Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc.

1. Datblygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol
2. Cyflwyno Cynllunio Gofal a Thriniaeth
3. Yr hawl i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi eu rhyddhau ofyn am ailasesiad
4. Datblygu Gwasanaethau Eirioli ar gyfer cleifion dan orchymyn a chleifion anffurfiol o fewn y gwasanaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio'n ystyried yr adroddiad, yn cefnogi'r cam o ddatblygu gwasanaethau o dan y mesur ac yn cydnabod y perthnasoedd gwaith da rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau Iechyd meddwl yn Sir Ddinbych a'r newidiadau cysylltiedig i'r ystod oed llawn.

4. Materion o'r Adroddiad.

4.1 Mae'r Mesur Iechyd Meddwl wedi arwain at newid sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu trwy Ogledd Cymru ac mae wedi arwain at ail-ddylunio ac ailfodelu gwasanaethau ym maes gwasanaethau Iechyd meddwl oedolion a gwasanaeth Iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Dylid cydnabod bod y newid hwn wedi digwydd mewn partneriaeth â'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Manylir ar y newidiadau mewn gwasanaethau oedolion isod ym mhwyntiau 4.1 i 4.7.5. Manylir ar y cynnydd hyd yma ar y model i blant a phobl ifanc yn Atodiad A. Mae'r newidiadau i'r gwasanaeth a gyflwynwyd trwy Ogledd Cymru wedi eu seilio i raddau helaeth ar ddatblygiad y model a oedd eisoes yn bodoli yn Sir Ddinbych.

4.2 Prif Newidiadau i Wasanaeth Oedolion

- 4.2.1 *Rheolwr Sirol* – Bellach mae gan bob Sir, yn cynnwys Sir Ddinbych, Reolwr penodedig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac ef/hi yw'r Rheolwr Arweiniol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol ac Eilaidd. Mae uwch reolwyr o'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdodau Lleol yn cydweithio i oruchwylio'r gwaith o reoli'r gwasanaethau ar y cyd.
- 4.2.2 *Un Pwynt Mynediad (SPoA)* – Cyflwynwyd hwn yn Sir Ddinbych i alluogi Meddygon Teulu gael un pwynt cyfeirio ar gyfer unrhyw broblem Iechyd Meddwl o Oedolion i Bobl Hŷn. Mae gwaith yn dal i fynd yn ei flaen i wella cysondeb y broses hon ond mae wedi symleiddio prosesau ac wedi hwyluso ymgysylltiad clinigol yn y broses gyfeirio. Rhoddir ystyriaeth i gyfuno'r trefniant hwn â'r Un Pwynt Mynediad ehangach (sy'n destun adroddiad ar wahân heddiw) gan ei fod wedi ei ddatblygu'n llawnach.
- 4.2.3 *E-Gyfeiriadau* - Cyflwynwyd y rhain ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfer cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl, yn cynnwys Sir Ddinbych, ac maent yn caniatáu i Feddygon Teulu gyfeirio cleifion mewn ffordd debyg at wasanaethau arbenigol eraill. Er bod adborth anecdotaidd ar y broses hon wedi bod yn gadarnhaol, rhagwelir y bydd y Bwrdd Iechyd yn cynnal archwiliad o fodlonrwydd Meddygon Teulu â'r newidiadau hyn.
- 4.2.4 *Mynediad at Gwnsela* – Cynhaliwyd proses dendro Gogledd Cymru i gytuno ar wasanaeth cwnsela y ceir mynediad ato trwy Feddygon Teulu ledled Gogledd Cymru fel rhan o gyflwyno'r Mesur. Bydd yn dechrau ddiwedd Ebrill.
- 4.2.5 *Cyflwyno Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol* - Mewn rhai ardaloedd ni fu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol penodedig ac mae cyflwyno hyn i'r ardaloedd hynny wedi helpu'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol ganolbwyntio ar weithio gyda phroblemau Iechyd meddwl difrifol a pharhaus a darparu gwasanaeth penodedig ar gyfer materion Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol. Mae'r model ar gyfer Gofal Sylfaenol a ddatblygwyd trwy Ogledd Cymru wedi ei fodelu i raddau helaeth ar y gwasanaeth presennol yn Sir Ddinbych. Recriwtiwyd tri aelod ychwanegol o staff i ddatblygu'r model hwn ymhellach o fewn Sir Ddinbych fel bod gwell mewnbyn i bob meddygfa ac felly trwy Sir Ddinbych gyfan. Hefyd mae gan y staff fynediad at seiciatrydd ymgynghorol i drafod achosion yn ôl yr angen. Mae gwaith pellach yn dal i fynd yn ei flaen i ddatblygu amrywiaeth o therapiau seicolegol, yn arbennig therapi gwybyddol ymddygiadol, fel y gall y tîm staff eu darparu'n effeithiol trwy'r sir. Mae gwaith yn parhau hefyd i sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau cymorth eraill yn ymwneud â'r problemau bywyd sydd ganddynt.
- 4.3 Yn gyffredinol, roedd amrywiaeth eang yn y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu yng Ngogledd Cymru ac mae'r broses hon wedi helpu i gyflwyno lefel o gysondeb a chaniatáu rhai amrywiadau lleol yn y ddarpariaeth.
- 4.4 Perfformiad Rhan 1 - Dyma'r profforma ar gyfer cyflwyno gwybodaeth am Wasanaethau Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol i Lywodraeth Cymru.

Dangosydd			Sir Ddinbych
1	Nifer yr ymarferwyr (WTE) mewn swyddi ar ddyddiad y cyfrifiad i bob 20,000 o'r boblogaeth (pob oed)	Cyfanswm nifer yr ymarferwyr (WTE) ar y dyddiad adrodd	8.1
		Cyfanswm poblogaeth yr ardal [gweler y nodiadau ar gyfer nifer poblogaeth]	93,700
		Cyfradd	1.7
2	Nifer yr asesiadau a gynhaliwyd yn ystod y mis diwethaf [nifer mewn mis]	Cleifion wedi eu cofrestru a gyfeiriwyd o ofal sylfaenol	173
		Cleifion heb eu cofrestru a gyfeiriwyd o ofal sylfaenol	0
		Cleifion wedi eu cofrestru a gyfeiriwyd o ofal eilaidd	12
3	Amseroedd aros ar gyfer asesiad gan Wasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS) (mewn diwrnodau calendr) yn erbyn y target o 28 diwrnod calendr [cipolwg ar ddiwedd y mis]	Nifer y cleifion a gyfeiriwyd oedd yn aros hyd at ac yn cynnwys 28 diwrnod	174
		Nifer y cleifion yn aros 29 diwrnod a mwy a hyd at ac yn cynnwys 56 diwrnod	96
		Nifer y cleifion yn aros 57 diwrnod a mwy	144
4	Amseroedd aros o'r asesiad i'r ymyrraeth, lle nodir (mewn diwrnodau calendr) [cipolwg ar ddiwedd y mis]	Nifer y cleifion a gyfeiriwyd oedd yn aros hyd at ac yn cynnwys 28 diwrnod	30
		Nifer y cleifion yn aros 29 diwrnod a mwy a hyd at ac yn cynnwys 56 diwrnod	21
		Nifer y cleifion yn aros 57 diwrnod a mwy	10
5	Nifer yr ymyriadau a gwblhawyd yn ystod y mis (h.y. achosion unigol a ryddhawyd o LPMHSS, i gynnwys triniaeth, addysg, cyfeirio neu wybodaeth) [nifer mewn mis]	Nifer yr ymyriadau uniongyrchol a ddarparwyd gan y LPMHSS	8
		Y nifer a gyfeiriwyd at wasanaethau eraill, heblaw am wasanaethau iechyd meddwl eilaidd	97
		Nifer y cyfeiriadau at ofal eilaidd	9

4.5 Perfformiad Rhan 2 - Cyflwynodd y Mesur Iechyd Meddwl fodel newydd Cynllunio Gofal a Thriniaeth a rhaid cwblhau'r newid i'r model hwn erbyn Mehefin. Mae'r ffigur isod yn cynrychioli'r ffigur naw mis, pan ddylai'r targed fod yn 75%. Gan Sir Ddinbych y mae'r gyfradd newid uchaf o'r chwe sir i gyd.

Iechyd Meddwl Oedolion	Llwyth achos agored	CTP	% Newid
Sir Ddinbych	507	386	76%

4.6 Perfformiad Rhan 3

Roedd yr adroddiad cyntaf ynglŷn â pherfformiad o safbwynt darparu ailasesiad i ddefnyddwyr gwasanaeth wedi eu rhyddhau i fod yn barod ddiwedd Mai, ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

4.7 Perfformiad Rhan 4 – Gwasanaethau Eirioli

4.7.1 Mae contract Eiriolwyr lechyd Meddwl Annibynnol (IMHA) wedi ei ymestyn tan 30 Tachwedd 2015 (yn unol â Fframwaith Cymru gyfan).

4.7.2 Mae lefelau staffio wedi cynyddu o chwech i naw cyfwerth ag amser llawn.

4.7.3 Mae pob eiriolwr o fewn y gwasanaeth wedi ennill Cymhwyster Eiriolaeth Annibynnol (IAQ). Mae 81% o Eiriolwyr lechyd Meddwl Annibynnol wedi cwblhau'r modiwl IMHA arbenigol ac mae'r gweddill wedi cofrestru er mwyn ei gwblhau eleni. Mae dau eiriolwr wedi cwblhau modiwl plant a phobl ifanc ac mae 4 eiriolwr arall wedi cofrestru er mwyn ei gwblhau eleni. Hefyd mae gan y Gwasanaeth ddau Reolwr cymwysedig a dau o aseswyr cymwysedig.

4.7.4 Mae dau o'r Gwasanaethau Eirioli wedi derbyn Marc Ansawdd y (QPM) ac maent yn paratoi i'w adnewyddu. Mae'r Trydydd Gwasanaeth yn y camau terfynol o gael y cymhwyster hwn.

4.7.5 Comisiynwyd swydd Swyddog Cyswllt Hyfforddiant am saith mis (Chwefror - Awst 2012) i ddatblygu a darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, gyda phwyslais arbennig ar Fesurau lechyd Meddwl estynedig (Cymru) 2010, Rhan 4. Pwrpas y swydd hon o fewn Partneriaeth IMHA oedd tynnu sylw'n benodol at ymestyn rôl yr IMHA mewn perthynas ag unigolion a gedwir o dan adran 4, 5(2) a 5(4) o Ddeddf 1983 a chleifion mewnol anffurfiol sy'n derbyn asesiad a thriniaeth ar gyfer anhwylder meddwl.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae cyflwyno'r Mesur yn flaenoriaeth i Brifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych. Mae'n cyfrannu at sicrhau bod pobl fregus yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl.

6. **Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Datblygwyd y gwasanaeth hwn trwy ddefnyddio adnoddau presennol a gyda'r cyllid ychwanegol oedd ar gael trwy Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer cefnogi'r dasg o weithredu'r Mesur lechyd Meddwl, felly ni fu unrhyw gost ychwanegol naill ai i lechyd na Gofal Cymdeithasol.

6.2 Mae'n bosibl y bydd cynnydd yn y galw ar wasanaethau eraill gan yr Awdurdod Lleol fel Gwasanaethau Cymdeithasol neu Dai cyffredinol. Mae hyn yn cael ei fonitro a bydd yr wybodaeth ar gael fel rhan o'r trefniadau monitro ar gyfer y Mesur yn lleol.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylai templed yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad**

Cynhaliwyd yr asesiad effaith cydraddoldeb ar sail Cymru gyfan fel rhan o gyflwyno'r Mesur.

8. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd gydag Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gyflwyno'r Mesur gan Lywodraeth Cymru a chytunwyd ar ddatblygu'r gwasanaeth lleol trwy Grŵp Gweithredu ar draws Gogledd Cymru. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol y chwe sir gan gynnwys Sir Ddinbych. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Mesur gan y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau ar 12 Gorffennaf 2012.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r prif risg yn gysylltiedig â'r cynnydd yn y galw trwy Ofal Sylfaenol ac mae hyn yn cael ei fonitro fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad i sicrhau bod adnoddau presennol yn cael eu targedu'n briodol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

11. Yr Hawl i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad y Cyngor